# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-03-06 (p3)

### Dyddiad: 6 Mehefin 2006
### Amser: Yn syth ar ôl y Cyfarfod Llawn
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 1 – Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd

#### 1. Cefndir

Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 1 yn pennu'r broses ar gyfer ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ac yn amlinellu eu dyletswyddau a'u pwerau. Mae hefyd yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer ymdrin ag ymddiswyddiadau a swyddi gwag. Crëwyd swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd gan Ddeddf 1998 ond mae'r Mesur cyfredol yn amlinellu eu cyfrifoldebau mewn mwy o fanylder.

#### 2. Y Rheol Sefydlog newydd

Yn yr Atodiad, amlinellir rhai o'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Rheol Sefydlog bresennol i ateb gofynion y Mesur a cheir cwestiynau lle y bo opsiynau ar gael. Pan fydd y Pwyllgor wedi cytuno ar gynnwys y Rheol Sefydlog newydd, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog newydd i'r Pwyllgor gytuno arni.

#### 3. Darpariaethau'r Mesur

Gwneir y darpariaethau ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yng nghymal 25 y Mesur, sef:

Y gweithdrefnau ar gyfer ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd o blith Aelodau'r Cynulliad. [cymal 25 (1)]

Disgrifiad o deitlau'r swyddi a darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog i newid y teitlau hynny. [cymal 25 (2)]

Cyfnod y swyddi, sy'n wahanol ar gyfer y naill a'r llall. [cymalau 25(3) a (4)]. Gweler isod i gael rhagor o fanylion.

Darpariaeth ar gyfer ymddiswyddiad a diswyddiad y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd. [cymal 25(5)]

Darpariaeth na chaiff y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i'r un grwp gwleidyddol neu i grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol [cymalau 25(7)–(9)]

Yr amgylchiadau lle y caiff y Dirprwy Lywydd ymgymryd â swyddogaethau'r Llywydd [cymalau 25 (10) ac (11)].

Y caiff y Rheolau Sefydlog ddarparu i unrhyw berson a enwir yn y Rheolau Sefydlog, neu a bennir yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ymgymryd â swyddogaethau'r Llywydd, a hynny os nad yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ar gael. [cymal 25(12)]

Y caiff y Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â rhan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn nhrafodion y Cynulliad (gan gynnwys pleidleisio) [cymal 25(13)].

Nid yw'r Mesur yn cyfeirio at unrhyw ddarpariaethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog o ran y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried y drafodaeth a gafodd y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru ynghylch cymal 4 2(b) sy'n datgan bod yn rhaid i'r Cynulliad gyfarfod cyn pen saith diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad. Mae hyn yn effeithio ar Reol Sefydlog 1.8 ynghylch cydbwysedd y pleidiau gwleidyddol ac ar Reol Sefydlog 1.12 ynghylch pleidleisio. [Cofnod y Trafodion. GWB 03-06 - 719]

## 4. Pwyntiau i'w nodi

4.1 Cyfnod y Swydd

Mae'r Mesur yn datgan bod cyfnod swydd y Llywydd yn para tan ddiwedd yr etholiad nesaf ar gyfer swydd y Llywydd. Mae cyfnod swydd y Dirprwy Lywydd yn para tan i'r Cynulliad gael ei ddiddymu. [cymalau 25(3) a (4)].

Yn Atodlen 11 [paragraff 20(2)], gwneir darpariaeth ar gyfer y "cyfnod cychwynnol" h.y. rhwng dyddiad yr etholiad ym mis Mai 2007 ac etholiad Prif Weinidog Cymru newydd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd deiliad swydd y Llywydd cyn etholiad 2007 yn parhau yn ei swydd, os yw'r person hwnnw yn ymgeisydd yn yr etholiad ac yn cael ei ailethol yn Aelod Cynulliad, a hynny tan i Lywydd newydd gael ei ethol.

Os na chaiff y Llywydd ei ailethol yn Aelod Cynulliad, mae Atodlen 11 yn darparu i'r Clerc ymgymryd â swyddogaethau penodol a ddirprwyir ac i Weinidogion lofnodi offerynnau sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth. [Atodlen 11 paragraffau 22 a 23]

4.2 Comisiwn y Cynulliad

Y Llywydd fydd yn cadeirio Comisiwn y Cynulliad [Atodlen 2 paragraff 11(2)]. Wrth ystyried Rheolau Sefydlog sy'n caniatáu i bobl eraill ymgymryd â swyddogaethau'r Llywydd, bydd angen egluro na fydd hyn yn gymwys i rôl y Llywydd fel aelod o'r Comisiwn. Y Comisiwn ei hun fydd yn penodi un o'i aelodau i gadeirio'r cyfarfodydd os bydd swydd y Llywydd yn wag neu os na fydd y Llywydd ar gael. [Atodlen 2 paragraff 11(2)].

4.3 Tyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad cyfatebol

Mae'r Mesur yn datgan bod yn rhaid enwi yn y Rheolau Sefydlog y person y caiff y llw ei dyngu neu'r cadarnhad ei roi ger ei fron [cymal 23(2)], er nad yw'r Rheolau Sefydlog yn gwneud darpariaeth o'r fath ar hyn o bryd. Os mai'r Llywydd fydd y person hwnnw, gallai effeithio ar y Rheol Sefydlog hon. Fodd bynnag, gall Aelodau gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad i ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyn iddynt dyngu'r llw neu roi'r cadarnhad [cymal 23(4)]. Caiff y mater hwn ei drafod ymhellach pan fydd y Pwyllgor yn ystyried Rheol Sefydlog 3 sy'n ymwneud ag Aelodau.

## 5. Camau i'w cymryd

Cytuno ar yr egwyddorion i'w cynnwys yn y Rheol Sefydlog hon, fel ag y'u hamlinellwyd yn yr atodiad. Yna, bydd y Clercod yn drafftio'r Rheol Sefydlog ddiwygiedig i'r Pwyllgor ei hystyried. Efallai y bydd y Pwyllgor am ymgynghori'n uniongyrchol â'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ynghylch y Rheol Sefydlog hon.

Uned Weithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006